

## Cymdeithas Llanberis

Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Tachwedd 10 yng nghwmni Annette Bryn Parri, Deiniolen.

## Agor y Llyfr

Gweddiwch dros ymweliad cyntaf criw 'Agor y Llyfr' ag Ysgol Gwau Gynfi, Deiniolen fore Gwener, Tachwedd 13.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Lun, Hydref 26:** Y Gymdeithas Undebol yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Tachwedd 1:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Tachwedd 1:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes, Llanfachreth ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Euros W Jones, Llangefni. Ni fydd Ysgol Sul gan ei bod yn wylliau hanner tymor.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Tachwedd 1:** Ni fydd oedfa.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Hydref 25

5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

### Tachwedd 1

10.00 a.m. - Y Gweinidog

### Tachwedd 8

5.00 p.m. - Mr John Roberts

### BETHLEHEM

**Dydd Mawrth, Hydref 27:** Cyfarfod Plant rhwng 4.00 a 5.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Tachwedd 1:** Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg John Owen, Rhuthun.

### CARMEL

**Dydd Llun, Hydref 26:** Te Bach rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Hydref 30:** Cynhelir 'Dwylo Prysor' am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Tachwedd 1:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Andrew Settatree, Caeathro.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Tachwedd 6:** Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.

**Nos Lun, Tachwedd 9:** Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch.



## Y mis nesaf - Llanberis

### Hydref 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu - Gwasanaeth Diolchgarwch

### Tachwedd 1

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes  
11.15 a.m. - DIM YSGOL SUL  
(Gwylliau Hanner Tymor)  
5.00 p.m. - Y Parchg Euros Jones

### Tachwedd 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 655: Dydd Sul, 25 Hydref, 2015

## Colli wythnos

Mae'r Gronyn bron yn barod! Mae'r newyddion a'r cyhoeddiadau wedi eu gorffen a dim ond y golofn hon sydd ar ôl erbyn hyn. Weithiau, mi fyddaf yn dechrau efo'r golofn hon ac yna'n mynd i'r afael â'r tudalennau eraill. Ond yr wythnos hon, y blaenaf fydd yn olaf yw hi.

Mi fu ond y dim i mi wneud cawl o bethau heno. Ond mi sylweddolais hynny mewn da bryd, ac mae popeth mewn trefn erbyn hyn gobeithio. Ond mi fu raid i mi newid cryn dipyn o'r hyn yr oeddwn wedi ei sgwennu. Am ryw reswm, mi es i'r gors yn lân o ran dyddiadau. Wn i ddim oedd a wnelo'r ffaith ein bod yn troi'r clociau heno â'r peth ai peidio. Ond yn lle ennill awr, mi fu bron i mi golli wythnos. Mi rois i'r dyddiad anghywir mewn mwy nag un man, ac mi feddyliais i mai'r Sul nesaf fydd yr wythfed o Dachwedd yn hytrach na'r cyntaf. Roeddwn wedi drysu'n lân a bod yn onest.

Ond diolch am hynny, fe lwyddais i gywiro'r camgymeriadau y tro hwn. Dyw hynny ddim bob amser yn bosibl. Mae ambell air na fedrwn ei dynnu'n ôl ac ambell weithred nad oes modd ei dadwneud. Ond diolch am hynny, mae Efengyl Iesu Grist yn cyhoeddi fod maddeuant i'w gael am bob pechod a bai a wnawn ni. Y gwir amdani yw na fedrwn ni gywiro'r pethau a wnawn ni yn groes i fwriadau a gorchmynion Duw. Yr ydym yn gyfrifol gerbron Duw am y cyfan a wnawn o'i le, ond

mae'r Duw sy'n dal ni'n gyfrifol am ein beiau wedi ei gwneud yn bosibl i ni gael maddeuant am yr holl feiau hynny trwy ei Fab Iesu Grist.

Caed digon o sôn ers dyddiau am yr awr ychwanegol a gawn ni wrth droi'r clociau nôl. Bydd mwy o sôn mewn oedfaon heddiw, gobeithio, am awr arall: yr awr honno y bu ein Gwardwr Iesu farw trosom ar groes Calfarfa. O'r holl oriau a fu yn holl hanes y byd, yr awr y bu farw Iesu yw'r awr fwyaf un. Yr awr honno - nawfed awr y dydd, neu dri o'r gloch y prynhawn - yw'r awr y canmolwn ni Dduw amdani heddiw fel pob dydd arall. Oherwydd dyna'r awr y dioddefodd Iesu trosom.

Y diwrnod hwnnw, gwyddai Iesu fod ei awr wedi dod. Roedd wedi dangos hynny'r noson cynt yng Ngethsemene pan ddywedodd, 'Dyma'r awr yn agos, a Mab y Dyn yn cael ei fradychu i ddwylo pechaduriaid' (Mathew 26:45). Gwyddai bryd hynny na fyddai modd osgoi'r awr honno; gwyddai na fyddai modd troi'r cloc ymlaen nac yn ôl i osgoi'r awr honno. Ac am fod ei awr wedi dod, mae holl fendithion Efengyl gras wedi eu sicrhau i'r rhai sy'n credu ynddo.

Ar yr un awr honno, fe ddangoswyd cariad Duw atom mewn ffordd gwbl arbennig pan roddodd ei Fab yn aberth trosom. Ond nid cariad un awr mo'r cariad hwnnw chwaith ond y cariad tragwyddol sydd gan Dduw at ei bobl. Diolchwn o'r newydd amdano heddiw.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw wrth i gyfarfodydd Diolchgarwch olaf eleni gael eu cynnal o fewn yr Ofalaeth.

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y plant yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Parchg W R Williams, Y Felinheli. Croeso cynnes iddo a diolch am ei wasanaeth.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch ac yna fe gynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch am 2.00 o'r gloch yng nghwmni plant ac aelodau'r Ysgol Sul a'r Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

## Cofion

Dymunwn yn dda i bawb arall sy'n methu â dod i'r oedfaon ar hyn o bryd.

## Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Carol Druce, 20 Dôl Elidir, Llanberis yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis echdoe, dydd Gwener, Hydref 23. Bu farw Carol ddydd Gwener, Hydref 16 yn 49 mlwydd oed. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Carol Roberts a'r Gweinidog.

Cydymdeimlwn â'i phriod a'i merched, Martyn, Lisa, Sian a Chloe; ei mam, Mrs Joyce Jones; ei brawd a'i chwiorydd, Gareth, Anne a Dilys; ei brawd yng nghyfraith, Gary; a'i modryb, Marion a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Soniwyd yn y gwasanaeth yn yr eglwys am y gofal arbennig a ddangosodd Carol am ei theulu, a'r modd y bu'n gefn i Martyn a'r genod yn ystod cyfnod byr ei gwaeledd. Soniwyd am ei dewrder a'i ffydd yn ogystal â'r direidi a'r hwyf a oedd mor amlwg yn ei chymeriad. Roedd wedi gwneud ffrindiau da lle bynnag y bu'n byw trwy ei gyrfaedd hi a Martyn yn yr Awyrlu. Roedd mor falch o gael dychwelyd i fyw i Lanberis rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn.

Dymunwn nerth Duw i'w theulu yn eu hiraeth a'u galar.

## Priodas

Brynhawn ddoe, dydd Sadwrn, Hydref 24 priodwyd Dawn Sullivan a Peter Collier yng nghapel Carmel, Llanllechid.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Gweinidog. Mrs Helen Williams oedd yr organyddes.

Mae Dawn, sydd wedi cartrefu yn New Inn, ger Pontypwl, yn aelod o'r eglwys yng Ngharmel ac roedd yn braf iawn cael dathlu ei phriodas hi a Peter yn y capel ddoe.

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r ddau yn eu bywyd priodasol. Edrychwn ymlaen at eu gweld yng Ngharmel eto pan fyddan nhw'n ymweld â'r teulu. Bydd croeso mawr iddyn nhw.

## Cymdeithas Deiniolen

Yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen nos yfory, nos Lun, Hydref 26, bydd Mr Mel Morris, Caernarfon yn sôn am 'Hen Siopau'r Dre'. Bydd y cyfarfod yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch.

## Te Bach

Yfory, ddydd Llun, Hydref 26, bydd y 'Dosbarth Gwau' yn festri Carmel, Llanllechid rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

## Parti Goleuni

Cynhelir y Clwb Plant misol yn festri Bethlehem bnawn Mawrth, Hydref 27 rhwng 4.00 a 5.00 o'r gloch. Y tro hwn, mae'r plant wedi eu gwahodd i 'Barti Goleuni' er mwyn tynnu sylw at obaith a goleuni'r Ffydd yng nghanol yr holl sôn a fydd yr wythnos hon am Galan Gaeaf ac ysbrydion ac ati. Gweddihwch dros y cyfarfodydd hyn a drefnir gan Jennifer Roberts, sy'n weithiwr ieuencid gyda'r Eglwys yng Nghymru. Cefnogir y gwaith yn frwd gan aelodau Bethlehem, a diolch am y gefnogaeth honno.

## Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Salem, Caernarfon am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Hydref 28. Bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys yr Oedfa Bregethu Flynnyddol. Y Parchg Euros Jones, Llangefni fydd yn pregethu yn yr oedfa hon eleni.

## Cyfarfod Blynyddol Efe

Estynnir croeso cynnes i chi i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 9.

Yn y cyfarfod hwn ceir adroddiad am waith y Cynllun dros y flwyddyn. Mae'n gyfle bob blwyddyn i ni ddiolch hefyd i Andrew ac i bawb sy'n cefnogi gwaith Efe mewn unrhyw ffordd.

## Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Tachwedd 17 er budd Cronfa Cynnal a Chadw'r capel.

Bydd amrywiaeth o stondinau, ac arnynt nwyddau Nadolig. Bydd y byrddau gwerthu arferol ar gyfer bric-a-brac, llyfrau, cacennau ac ati.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y byrddau a'r hamperi, byddem yn falch iawn o'u cael gan y bydd pob rhodd yn help i sicrhau llwyddiant y Ffair.

Pris mynediad yn cynnwys paned a chacen fydd £1. Ni fydd angen i blant dalu.

## Llongyfarchiadau

Roedd yn braf gweld un o blant Ysgol Sul Deiniolen yn ennill Tlws y Llenor Ifanc yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail nos Iau. Llongyfarchiadau cynnes i Glain Hughes, Coed Mawr.